

Rhif cwmni / company number: 14227941

Cyfarfod Bwrdd | Board meeting

16/09/24 - Zoom

14.00 - 17.00



Cofnod a phwyntiau gweithredu | Minutes and actions

Presennol | In attendance:

Adnodd:

Gethin Davies, Cadeirydd | Chair (GD); Lesley Bush (LB); Sioned Roberts (SR); Huw Jones (HJ); Mair Gwynant, Cadeirydd | Chair ARAC (MG); Natalie Jones (NJ); Emyr George, Prif Weithredwr | Chief Executive (EG); Lleucu Siencyn, Cyfarwyddwr Strategaeth a Chyflawni | Director of Strategy and Delivery (LIS), Ruth Davies (RD), Branwen Edwards (BE).

Llywodraeth Cymru (LIC):

Nesta Doyle

Azets

Lucy Dean - eitem 6 yn unig / item 6 only

Blue Stag

Dan Sargeant - eitem 10 yn unig / item 10 only

Ymddiheuriadau | Apologies:

Lucy Thomas (LT); Nicola Wood (NW)

Eitem agenda Agenda item	Crynodeb o'r drafodaeth a phwyntiau gweithredu	Summary of discussion and action points
1. Croeso ac ymddiheuriadau Welcome and apologies	Croesawodd GD bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod, gan gynnwys y ddau aelod newydd eu penodi, Mair Gwynant a Natalie Jones. Nodwyd ymddiheuriadau gan Lucy Thomas a Nicola Wood	GD welcomed all attendees to the meeting, including the two newly appointed members, Mair Gwynant and Natalie Jones. Apologies were noted from Lucy Thomas and Nicola Wood.
2. Datganiad o fuddiant Declaration of interest	Nododd GD nad oedd unrhyw wrthdaro buddiannau wedi'i ddatgan cyn y cyfarfod. Datganodd dau aelod eu bod ar hyn o bryd yn gweithio gyda chyflenwyr o fuddiant (Atebol a Chyngor Llyfrau Cymru).	GD noted that no conflict of interests had been declared in advance of the meeting. Two members declared that they are currently working with suppliers of interest (Atebol and Books Council of Wales). Action: Declaration of interests forms to be circulated to members to update the Conflict of Interests Register.

	<p>Pwynt gweithredu: Ffurflenni datgan buddiannau i'w dosbarthu i'r aelodau er mwyn diweddarau'r Gofrestr Gwrthdaro Buddiannau.</p>	
<p>3. Cofnodion y cyfarfod diwethaf Minutes of previous meeting</p>	<p>Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.</p> <p><u>Pwyntiau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol</u> Mewn perthynas â cham gweithredu 8, nodwyd bod y Polisi Caffael yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.</p> <p>Nododd MG nad oedd cofnodion eitem 6 (caeedig) wedi'u dosbarthu.</p> <p>Pwynt gweithredu: Dosbarthu cofnodion ar gyfer eitem 6 (caeedig).</p>	<p>It was agreed that the minutes were a true and accurate record of the meeting.</p> <p><u>Actions from previous meeting</u> It was noted that in relation to action 8, the Procurement Policy is currently in progress.</p> <p>MG noted that the minutes for the closed item 6 had not been circulated.</p> <p>Action: Circulate minutes for closed item 6.</p>
<p>4. Diweddariad gan y Cadeirydd Update from the Chair</p>	<p>Nododd GD ehangu'r Bwrdd ar draws amrywiol sectorau ac arbenigedd.</p> <p>Cynhwyswyd canllawiau ar gyfer cyfarfodydd ar-lein yn y papurau, er mwyn darparu elfen o hyfforddiant a chysondeb. Mae'n bwysig bod pob aelod yn gallu cyfrannu'n effeithiol yn ystod cyfarfodydd, yn gyffredinol ac o safbwynt eu harbenigedd, yn enwedig mewn perthynas â gwneud penderfyniadau.</p>	<p>GD noted the expansion of the Board across various sectors and specialism.</p> <p>Guidelines for online meetings were included in the papers, to provide an element of training and consistency. It is important that every member can contribute effectively during meetings, both generally and from the perspective of their specialism, particularly in relation to decision-making.</p> <p>Referring to the Board's effectiveness survey, GD noted that members had raised the need for training. The intention is to</p>

	<p>Gan gyfeirio at arolwg effeithiolrwydd y Bwrdd, nododd GD fod yr aelodau wedi codi'r angen am hyfforddiant. Y bwriad yw darparu sesiwn hyfforddi fer ar ddechrau pob cyfarfod Bwrdd, gan ddechrau gyda sesiwn heddiw ar y Cwricwlwm i Gymru.</p>	<p>provide a short training session at the beginning of each Board meeting, starting with today's session on the Curriculum for Wales (CfW).</p>
<p>5. Diweddariad gan y Prif Weithredwr Update from the Chief Executive</p>	<p>Esboniodd EG fod presenoldeb Adnodd mewn cyfarfod o'r Bwrdd Strategol Adnoddau Addysgol (ERSB) wedi'i ohirio er mwyn caniatáu cyfarfod mewnol o Lywodraeth Cymru (LIC) i drafod cyllideb a blaenoriaethau Adnodd.</p> <p>Bydd cyfarfod rhwng Adnodd ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, a drefnwyd ar gyfer 18 Medi, yn gyfle i drafod rôl ac uchelgeisiau'r cwmni, gyda golwg ar ddod i ddeall ei blaenoriaethau hithau a sut y gall Adnodd adlewyrchu'r rheiny wrth i'r weledigaeth a'r strategaeth ddatblygu.</p> <p>Bydd y Cyfarwyddwr Addysg presennol yn gadael ei swydd ddiwedd mis Hydref. Mae Cyfarwyddwr dros dro wedi'i phenodi, sydd ar hyn o bryd yn Ddirprwy Gyfarwyddwr gyda chyfrifoldeb am wella ysgolion a chymwysterau.</p> <p>Eglurodd EG y bydd cyfarfod o'r ERSB yn cael ei drefnu ym mis Hydref i drafod yr amcanion a'r blaenoriaethau mewn perthynas â'r gyllideb, gyda chyfarfod pellach i'w drefnu ym mis Rhagfyr.</p>	<p>EG explained that Adnodd's attendance at a meeting of the Educational Resources Strategic Board (ERSB) had been postponed to allow for an internal Welsh Government (WG) meeting to discuss Adnodd's budget and priorities.</p> <p>A meeting between Adnodd and the Cabinet Secretary for Education (CSE), arranged for 18 September will provide an opportunity to discuss the company's role and ambitions, with a view to gain an understanding of the CSE's priorities and how Adnodd can reflect those as the vision and strategy evolves.</p> <p>The current Director of Education will be leaving his post at the end of October. An interim Director has been appointed, who is currently a Deputy Director with responsibility for school improvement and qualifications.</p> <p>EG explained that a meeting of the ERSB will be arranged in October to discuss the objectives and priorities in relation to the budget, with a further meeting to be arranged in December.</p> <p>The WG's middle tier review continues, with decisions on how the findings will be implemented due to be confirmed this term. It was</p>

	<p>Mae adolygiad haen ganol LIC yn parhau, gyda phenderfyniadau ar sut i weithredu'r canfyddiadau i'w cadarnhau y tymor hwn. Nodwyd y gallai Adnodd gynnig rhai adnoddau addysgol a chymorth a ddarparwyd yn flaenorol gan Gonsortia Rhanbarthol ar lefel genedlaethol.</p>	<p>noted that some educational resources and support previously provided by Regional Consortia could potentially be offered by Adnodd on a national level.</p>
<p>6. Diweddariad gan Gadeirydd ARAC</p> <p>Update by Chair of ARAC</p>	<p>Sicrwydd Nododd MG y cafwyd sicrwydd ar ffurf cyngor cyfreithiol mewn perthynas â phrosesau comisiynu a chaffael Adnodd.</p> <p>Nodwyd bod y Pwyllgor yn fodlon bod gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas â rheolaethau mewnol a threfniadau llywodraethu, ond bod angen rhagor o waith ar seiberddiogelwch a'r Polisi Cyllid. Mae gwaith ar y Polisi Cyllid yn cael ei flaenoriaethu, gyda drafft gweithio i'w gwblhau erbyn diwedd mis Medi. Mae gwaith ar geisio achrediad seiberddiogelwch i fod i ddechrau yn fuan.</p> <p>Mae angen gwaith pellach ar y Llawlyfr Corfforaethol, i sicrhau ei fod wedi ei ffocysu yn ymarferol ac yn benodol i gyfansoddiad a gweithgareddau Adnodd. Bydd drafft terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd yn ei gyfarfod nesaf.</p> <p>Risg Nodwyd bod angen gwaith pellach i fireinio'r gofrestr risg, i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r cynnydd a wnaed wrth sefydlu Adnodd a'r symudiad i ffocws mwy gweithredol. Bydd y gofrestr risg yn cael ei hailwampio fel rhan o'r gwaith i ddatblygu Polisi Rheoli Risg, a fydd hefyd yn</p>	<p>Assurance MG noted that assurance had been received in the form of legal advice in relation to Adnodd's commissioning and procurement processes.</p> <p>It was noted that the Committee was content that work is ongoing in relation to internal controls and governance arrangements, but that further work was needed on cybersecurity and the Finance Policy. Work on the Finance Policy is being prioritised, with a working draft due to be completed by the end of September. Work on seeking cybersecurity accreditation is due to start imminently.</p> <p>Further work is needed on the Corporate Handbook, to ensure that it is practically focused and specific to Adnodd's constitution and activities. A final draft will be presented to the Board at its next meeting.</p> <p>Risk It was noted that further work is needed to refine the risk register, to ensure that it reflects the progress made in establishing Adnodd and the shift to a more operational focus. The risk register will be revamped as part of the work to develop a Risk</p>

	<p>cynnwys datganiad o archwaeth risg Adnodd i'r Bwrdd ei ystyried.</p> <p>Archwilio Mae Archwilio Cymru bellach wedi cytuno'n ffurfiol i weithredu fel Archwilwyr Allanol ar gyfer Adnodd, gan ddechrau gyda'r flwyddyn ariannol gyfredol (2024/25). Cyfarfu ARAC â Helen Morris o wasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru. Bydd gwaith archwilio yn cychwyn tua diwedd 2024/25 a bydd ARAC yn adolygu'r cynllun archwilio perthnasol ar gyfer 2024/25 a 25/26.</p> <p>Cyngor Eglurodd EG y ceisiwyd cyngor cyfreithiol gan Darwin Gray i gadarnhau a oes angen proses gaffael gystadleuol, oherwydd natur cytundeb gwasanaethau a rennir gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a gwasanaeth archwilio mewnol LIC.</p> <p>Cyfrifon statudol Cadarnhawyd mai'r Bwrdd sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r cyfrifon statudol, a'u cymeradwyo gan EG fel swyddog cyfrifyddu, cyn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru ac i Dŷ'r Cwmnïau wedi hynny.</p> <p>Argymhellwyd y cyfrifon statudol gan ARAC i'r Bwrdd eu cymeradwyo.</p> <p>Penderfyniad: Cymeradwywyd y cyfrifon statudol.</p>	<p>Management Policy, which will also include a statement of Adnodd's risk appetite for the Board to consider.</p> <p>Audit Audit Wales has now formally agreed to act as External Auditors for Adnodd, starting with the current financial year (2024/25). ARAC met with Helen Morris from the Welsh Government Internal Audit service. Audit work will commence towards the ends of 2024/25 and ARAC will review the relevant audit plan for 2024/25 and 25/26.</p> <p>Advice EG explained that legal advice had been sought from Darwin Gray to confirm whether a competitive procurement process is needed, due to the nature of a shared services agreement with Caerphilly County Borough Council and WG internal audit service.</p> <p>Statutory accounts It was confirmed that the Board is responsible for approving the statutory accounts, and sign off by EG as accounting officer, before presenting to WG and to Companies House thereafter.</p> <p>The statutory accounts were recommended by ARAC to the Board for approval.</p> <p>Decision: The statutory accounts were approved.</p> <p>Finance report</p>
--	---	--

	<p>Adroddiad cyllid Darparwyd trosolwg o'r adroddiad cyllid ar gyfer chwarter un. Y prif bwynt i'w nodi yw bod gwariant ar gyfer chwarter un ar y trywydd iawn, a rhagwelir y bydd tanwariant cymhedrol ar gyfer 2024-25.</p> <p>Cadarnhaodd ARAC y dylid cynnwys proses ar gyfer trosglwyddiadau cyllideb yn y Polisi Cyllid, ac y dylid monitro'r gyllideb gomisiynu'n agos, oherwydd y risgiau posibl i enw da Adnodd o danwario yn ei gyllideb.</p>	<p>An overview of the finance report was provided for quarter one. The main point to note is that spend for quarter one is on track, and that a modest underspend is projected for 2024-25.</p> <p>ARAC confirmed that a process for budget virements should be included in the Finance Policy, and that the commissioning budget should be closely monitored, due to the potential reputational risks to Adnodd of underspending its budget.</p>
<p>7. Comisiynu Adnoddau TGAU</p> <p>Commissioning GCSE resources</p>	<p>Rhoddodd EG drosolwg o'r gwaith i sicrhau cyllid ychwanegol gan LIC i gomisiynu CBAC i ehangu ei gyfres arfaethedig o adnoddau i gyd-fynd â'r cymwysterau TGAU newydd, sydd i ddechrau ym mis Medi 2025.</p> <p>Roedd papur pedwar yn cynnwys crynodeb o'r gwaith a gwblhawyd hyd yma, gan gynnwys y cyngor cyfreithiol sy'n cymeradwyo ac yn cefnogi dull Adnodd o gomisiynu.</p> <p>Bydd pecyn cyffredinol CBAC yn cynnwys cyfres gynhwysfawr o adnoddau i gefnogi dysgwyr ac ymarferwyr i baratoi ar gyfer y cymwysterau newydd. Cadarnhawyd y bydd y pecyn cyflawn ar gael ar-lein ac yn rhad ac am ddim, gyda chyfeirio gan HWB i blatfform adnoddau ar-lein CBAC. Bydd ymarferwyr hefyd yn gallu teilwra'r adnoddau i gyd-fynd â chynllun cwricwlwm eu hysgolion.</p>	<p>EG gave an overview of the work to secure additional WG funding to commission WJEC to expand its planned suite of resources to coincide with the new GCSEs, due to commence in September 2025.</p> <p>Paper four comprised a summary of the work completed to date, including the legal advice that approves and supports Adnodd's method for commissioning.</p> <p>The overall WJEC package will comprise a comprehensive suite of resources to support learners and practitioners to prepare for the new qualifications. It was confirmed that the complete package will be available online and free of charge, with signposting from HWB to WJEC's online resources platform. Practitioners will also be able to tailor the resources to align with their schools' curriculum design. It was confirmed that all resources included in</p>

	<p>Cadarnhawyd y bydd yr holl adnoddau a gynhwysir yn y pecyn, gan gynnwys y rhai a ddatblygwyd ar gost CBAC, yn cael eu brandio â logos Adnodd, LIC a CBAC.</p> <p>Amlygodd EG bwysigrwydd y gwaith hwn fel comisiwn mawr cyntaf Adnodd, a fydd, oherwydd ei faint a'i natur, yn denu diddordeb sylweddol o'r sector. Yr argymhelliad yw bod aelod o'r Bwrdd yn cael ei enwebu i weithio gyda'r tîm wrth i'r trefniadau gael eu cwblhau, ac i gymeradwyo dyfarnu'r contract - yn unol â'r polisiau caffael a chyllid drafft.</p> <p>Cododd MG dri risg bosibl i Adnodd mewn perthynas â chomisiwn CBAC:</p> <ol style="list-style-type: none">1. ariannol - risg o beidio â gwneud defnydd llawn o'r cyllid sydd ar gael gan LIC yn y flwyddyn ariannol gyfredol hon2. cyfreithiol - bellach wedi gostwng o ganlyniad i'r cyngor cyfreithiol3. enw da - mae perthnasedd yr adnoddau yn seiliedig ar ymgynghoriad rhanddeiliaid CBAC <p>Mewn ymateb, cadarnhaodd EG fod manylion cynllun wrth gefn wedi ei gynnwys yn y cytundeb, i ganiatáu ar gyfer ail-gydbwyso cyllidebau rhwng Adnodd a CBAC, i liniaru'r risg o danwariant yn y flwyddyn ariannol hon (2024/25).</p> <p>Enwebwyd NJ fel yr aelod o'r Bwrdd i gefnogi prosiect comisiwn CBAC.</p>	<p>the package, included those developed at WJEC's cost, will be branded with Adnodd, WG and WJEC logos.</p> <p>EG highlighted the importance of this work as the first major commission for Adnodd, which due to its volume and nature will attract significant interest from the sector. The recommendation is that a member of the Board is nominated to work with the team as the arrangements are finalised, and to approve the award of the contract - in line with the draft procurement and finance policies.</p> <p>MG raised three potential risks to Adnodd in relation to the WJEC commission:</p> <ol style="list-style-type: none">1. financial - risk of not making full use of the funds made available by WG in this current financial year2. legal - now reduced as a result of the legal advice3. reputational - the relevance of the resources is based upon WJEC's stakeholder consultation <p>In response, EG confirmed that details of a contingency had been included in the contract, to allow for the rebalancing of budgets between Adnodd and WJEC, to mitigate the risk of underspend in this financial year (2024/25).</p> <p>NJ was nominated as the Board member to support the WJEC commission project.</p> <p>Decision: The Board approved the approach outlined in paper four in relation to the WJEC project.</p>
--	---	---

	<p><i>Penderfyniad: Cymeradwyodd y Bwrdd y dull a amlinellwyd ym mhapur pedwar mewn perthynas â phrosiect CBAC.</i></p>	
<p>8. Diweddariad a chamau nesaf comisiynu</p> <p>Update and next steps of commissioning</p>	<p>Gan gyfeirio at bapur pump, eglurodd LIS y bydd Adnodd, fel sefydliad newydd, yn treialu modelau comisiynu amrywiol yn ystod ei flwyddyn gyntaf.</p> <p>Mae cytundebau ar gyfer y prosiectau dyfarnu uniongyrchol a gyflwynwyd i'r Bwrdd yn y cyfarfod diwethaf ym mis Gorffennaf yn cael eu llunio ar hyn o bryd. Cynhelir trafodaethau i gytuno ar gerrig milltir penodol i fonitro'r gwariant yn agos ac i liniaru'r risg o danwariant.</p> <p>Erys ffigwr o £36,000 ar gyfer proses gomisiynu gystadleuol bellach ar ffurf cais am gynigion. Yn y broses benderfynu, bydd y tîm yn ystyried blaenoriaethau datganedig LIC a'r cwrpas cyffredinol ar draws Meysydd Dysgu a Phrofiadau'r Cwricwlwm i Gymru i sicrhau bod dosbarthiad teg ar draws yr holl flaenoriaethau.</p> <p>Eglurodd EG y bydd gofyn i gyflenwyr ddarparu gwybodaeth fanwl mewn perthynas â'u costau disgwylidig. Ar gyfer contractau mwy fel CBAC, bydd gofyn am gyfrifo llyfr agored. Bydd Adnodd yn cynnal asesiad gwerth am arian ar gyfer pob dyfarniad</p>	<p>Referring to paper five, LIS explained that Adnodd, as a new organisation, will trial various models of commissioning during its initial year.</p> <p>Contracts for the direct award projects presented to the Board at the last meeting in July are currently being drawn up. Discussions will be held to agree on specific milestones to closely monitor the expenditure and to mitigate the risk of underspending.</p> <p>A figure of £36,000 remains for a further competitive commissioning process in the form of a request for proposals. In the decision-making process, the team will take into account WG's stated priorities and overall coverage across the CfW's Areas of Learning and Experiences to ensure that there is a fair distribution across all priorities.</p> <p>EG explained that suppliers will be asked to provide detailed information in relation to their expected costs. For larger contracts such as WJEC, there will be a requirement for open book accounting. Adnodd will conduct a value for money assessment for all direct awards, based on financial information provided by the suppliers, before a contract is agreed.</p>

	<p>uniongyrchol, yn seiliedig ar wybodaeth ariannol a ddarparwyd gan y cyflenwyr, cyn cytuno ar gontract.</p>	
<p>9. Adnoddau Dynol Human Resources</p>	<p>Rhoddodd EG drosolwg o gynnig ARAC i'r Bwrdd ddirprwyo awdurdod i ARAC gymeradwyo a rheoli'r mwyafrif o bolisïau AD, ac eithrio polisïau penodol y dylid eu cadw ar gyfer y Bwrdd.</p> <p>Penderfyniad: Cytunodd y Bwrdd i ddirprwyo awdurdod ar gyfer adolygu a chymeradwyo polisïau AD Adnodd i ARAC, ac eithrio'r polisïau canlynol a fydd yn cael eu cadw i'r Bwrdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cod Ymddygiad y Bwrdd • Gwrthdaro Buddiannau • EDI / Cydraddoldeb ac Amrywiaeth • Polisi treuliau sy'n berthnasol i bob gweithiwr ac aelod bwrdd • Polisi gweithio hyblyg • Polisi gweithio ystwyth • Anrhegion, Llwgrwobrwyo a Lletygarwch • Polisi gwobrwyo • Polisi'r Gymraeg • Polisi Iechyd a Diogelwch <p>Diolchodd y GD i'r aelodau am eu penderfyniad (a wnaethpwyd o bell y tu allan i gyfarfodydd y Bwrdd a drefnwyd) i gymeradwyo'r teitl a'r raddfa uwch ar gyfer Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, ac i ymestyn contract y Rheolwr Busnes interim.</p>	<p>EG gave an overview of the proposal by ARAC for the Board to delegate authority to ARAC to approve and manage the majority of HR policies, save for specific policies that should be reserved for the Board.</p> <p>Decision: The Board agreed to delegate authority for reviewing and approving Adnodd's HR policies to ARAC, save for the following policies which will be reserved for the Board:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Board Code of Conduct • Conflict of Interest • EDI / Equality and Diversity • Expenses policy applicable to all employees and board members • Flexible working policy • Agile working policy • Gifts, Bribery and Hospitality • Reward policy • Welsh language policy • Health and Safety policy <p>GD thanked members for their decision (taken remotely outside of scheduled Board meetings) to approve the title and increased grade for the Director of Corporate Services, and to extend the contract of the interim Business Manager.</p>

	<p>Penderfyniad: Cymeradwyodd y Bwrdd y diwygiadau i strwythur staffio Adnodd drwy benderfyniad o bell ar 3 Medi 2024.</p> <p>Derbyniwyd hysbysiad gan LIC y bydd cyflogau'r Gwasanaeth Sifil yn cynyddu 5% o fis Ebrill 2024. Bydd trafodaethau ynglŷn â'r cynnig ar gyfer staff Adnodd yn cael eu cynnal yn ystod cyfarfod arbennig o ARAC ym mis Hydref, gydag argymhelliad yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd i'w gymeradwyo cyn cyfarfod mis Rhagfyr.</p>	<p>Decision: The Board approved the amendments to Adnodd's staffing structure by remote decision on 3 September 2024.</p> <p>Notification had been received by WG that Civil Service wages will increase by 5% from April 2024. Discussions regarding the proposal for Adnodd staff will take place during an extraordinary meeting of ARAC in October, with a recommendation put to the Board for approval in advance of the December meeting.</p>
<p>10. Adroddiad Perfformiad Blynyddol</p> <p>Annual Performance Report</p>	<p>Cyflwynodd LIS yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol drafft, gan egluro ei fod yn seiliedig ar gynnydd yn erbyn yr amcanion a osodwyd yn llythyr cylch gwaith LIC.</p> <p>Croesawodd MG strwythur yr adroddiad. Er mwyn symmlrwydd ac effeithlonrwydd, awgrymodd y gellid integreiddio'r cyfrifon a'r adroddiadau statudol blynyddol a'r adroddiad perfformiad blynyddol mewn un ddogfen yn y dyfodol.</p>	<p>LIS introduced the draft Annual Performance Report, explaining that it is based on progress against the objectives set within WG's remit letter.</p> <p>MG welcomed the structure of the report. For simplicity and efficiency, she suggested that the annual statutory accounts and reports, and the annual performance report could be integrated into one document in future.</p>
<p>11. Cyfathrebu - Gwefan a mapio rhanddeiliaid</p> <p>Communication - website and stakeholder mapping</p>	<p>Cyflwynwyd Blue Stag fel y partner cyfathrebu a marchnata, a rhoddodd drosolwg o'i waith i Adnodd, gan gynnwys cefnogi'r gwaith o fapio ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.</p> <p>Nodwyd y bydd tudalen lanio i wefan Adnodd, yn cael ei lansio ddiwedd mis Medi. Bydd y wefan gyfan, llawn nodweddion a chynnwys yn cael ei lansio ym mis Tachwedd.</p>	<p>Blue Stag was introduced as the communications and marketing partner, who provided an overview of its work for Adnodd, including supporting the work of stakeholder mapping and engagement.</p> <p>It was noted that a landing page to the Adnodd website, will launch at the end of September. The full, feature- and content-rich website will be launched in November.</p>

	<p>Nododd Blue Stag y gwaith sydd wedi'i wneud i ddatblygu brand Adnodd, gan gynnwys nwyddau, arweiniad tôn llais ac arddull darlunio.</p> <p>Wrth ymateb i ymholiad gan aelod ynglŷn ag amserlen gyfathrebu, cadarnhaodd Blue Stag y bydd mwy o weithgarwch ar draws sianeli Adnodd dros yr wythnosau nesaf. Mae hyn yn cael ei reoli trwy galendr cynnwys sy'n cynnwys cerrig milltir allweddol ar gyfer cyhoeddi cynnwys.</p> <p>Pwynt gweithredu: Blue Stag i rannu'r calendr cynnwys gydag aelodau'r Bwrdd.</p> <p>Pwynt gweithredu: Mapio rhanddeiliaid i'w gynnwys yn y ddarpariaeth hyfforddi a datblygu ar gyfer y Bwrdd.</p>	<p>Blue Stag noted the work that has been undertaken to develop the Adnodd brand, including merchandise, tone of voice guidance and illustration style.</p> <p>Responding to a member query regarding a communications timetable, Blue Stag confirmed that there will be more activity across Adnodd's channels over coming weeks. This is being managed through a content calendar which includes key milestones for content publication.</p> <p>Action: Blue Stag to share the content calendar with Board members.</p> <p>Action: Stakeholder mapping to be included in the training and development provision for the Board.</p>
<p>12. Cofrestr risg Risk Register</p>	<p>Nodwyd yr argymhelliad i adnewyddu'r gofrestr risg i sicrhau ei bod yn gyfredol ac yn gywir, ynghyd â chynhyrchu Polisi Rheoli Risg i nodi archwaeth risg ac agosrwydd risg.</p> <p>Penderfyniad: Cymeradwyodd y Bwrdd yr argymhelliad i ddiweddarau'r gofrestr risg yn unol â'r drafodaeth yn ARAC.</p>	<p>The recommendation to refresh the risk register to ensure that it is up to date and accurate was noted, along with production of a Risk Management Policy to identify risk appetite and risk proximity.</p> <p>Decision: The Board approved the recommendation to update the risk register in line with the discussion at ARAC.</p>
<p>13. UFA AOB</p>	<p>Cyfarfod nesaf 18/12/2024.</p>	<p>Next meeting 18/12/2024.</p>